**LLYWODRAETH CYMRU**

# GORCHYMYN GORCHYMYN CEFNFFORDD ABERGWAUN I FANGOR (A487) (FFORDD OSGOI CAERNARFON A BONTNEWYDD) (FFYRDD YMYL) 2018 (AMRYWIO) 202-

## *AILALINIO LLWYBR TROED LLANRUG 36 GER MEITHRINFEYDD SEIONT*

## DATGANIAD ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod priffyrdd perthnasol, yn gyfrifol am yr holl gefnffyrdd yng Nghymru. Mae cefnffordd yr A487 yn rhan bwysig o rwydwaith ffyrdd strategol Llywodraeth Cymru a'r gefnffordd hon yw'r prif lwybr rhwng y gogledd a'r de ar hyd arfordir y gorllewin gan gysylltu Abergwaun, Aberteifi, Aberystwyth, Machynlleth, Dolgellau, Porthmadog, Caernarfon a Bangor â'i gilydd.

Yn dilyn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus ym mis Mehefin / Gorffennaf 2017, gwnaed Gorchmynion Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd yr A487 gan Weinidogion Cymru ym mis Mehefin 2018. Mae'r Gorchmynion yn cynnwys:

**(i)** Gorchymyn Llinell a Gorchmynion Tynnu Statws Cefnffordd 2018 yw—

Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (A487) (Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd a Thynnu Statws Cefnffordd) 2018;

**(ii)** Gorchymyn Ffyrdd Ymyl 2018 yw—

Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (A487) (Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd) (Ffyrdd Ymyl) 2018;

**(iii)** Gorchymyn Prynu Gorfodol 2018 yw—

Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Abergwaun i Fangor (A487) (Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd)) 2018".

Lluniwyd Datganiad Amgylcheddol a Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol o effeithiau tebygol posibl y Cynllun a Gyhoeddwyd ar y cyd â'r Gorchmynion uchod. Nid oedd y Gorchmynion a gyhoeddwyd yn cael effaith amgylcheddol andwyol ac felly nid oes angen unrhyw atchwanegiadau i'r dogfennau amgylcheddol.

Ar ôl datblygu dyluniad y Cynllun ac ymgynghori â thirfeddianwyr yr effeithir arnynt a'r Awdurdod Lleol (Cyngor Sir Gwynedd), mae Amrywiad i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl yn ofynnol i fynd i'r afael â'r canlynol:

- AILALINIO LLWYBR TROED LLANRUG 36 GER MEITHRINFEYDD SEIONT

Mae tir ychwanegol a/neu hawliau ychwanegol dros dir yn ofynnol ar gyfer y newid arfaethedig hwn i'r Cynllun a Gyhoeddwyd. Mae manylion y newidiadau arfaethedig, gan gynnwys sut maent yn cymharu â'r Cynllun a Gyhoeddwyd, wedi eu nodi isod ac wedi eu dangos ar y Planiau Safle.

Byddai'r cynigion yn yr Amrywiad drafft hwn i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl yn gwneud diwygiadau i Atodlen 7 ac yn rhoi Taflen 7A yn lle Taflen 7. Ni fyddai effaith ar yr Atodlenni na'r Taflenni Ffyrdd Ymyl eraill.

Ymwelwyd â thirfeddianwyr, partïon eraill a chanddynt fuddiant a phersonau y byddai'r newidiadau i'r Cynllun a Gyhoeddwyd yn cael effaith uniongyrchol ar eu heiddo neu eu mynedfeydd preifat, neu cysylltwyd â hwy, er mwyn rhoi gwybod iddynt am y cynigion cyn cyhoeddi'r Amrywiad drafft i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl. Ni fu unrhyw wrthwynebiadau hyd yma a gwahoddir sylwadau/gwrthwynebiadau ar gyfer y newidiadau arfaethedig hyn i'r Cynllun a Gyhoeddwyd, fel y nodir yn yr hysbysiad cyhoeddus.

Nid yw'r un o'r cynigion yn y Gorchymyn drafft, a ddisgrifir isod, yn arwain at newid i amcanion a gyhoeddwyd y Cynllun a Gyhoeddwyd.

## CYNIGION AR GYFER AMRYWIAD DRAFFT I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL

### *AILALINIO LLWYBR TROED LLANRUG 36 GER MEITHRINFEYDD SEIONT*

Y cynnig yw newid llwybr Llwybr Troed Llanrug 36 yng nghyffiniau Meithrinfeydd Seiont sydd ar Ffordd Llanberis yr A4086 ac i'r gogledd-ddwyrain o'r Gylchfan Cibyn newydd. Byddai'r newid yn y llwybr o'r A4086 i'r Danffordd sydd newydd ei hadeiladu ger Tyddyn Bistle yn rhoi'r llwybr troed drwy dir pori amaethyddol, sy'n cyd-fynd â'r rhannau eraill o'r llwybr troed.

Mae hyn yn symud y llwybr o'r fangre busnes, ac felly yn gwella diogelwch eiddo a diogelwch personol ar gyfer y busnes ac ar gyfer defnyddwyr. Mae hefyd yn darparu llwybr mwy diogel oddi ar yr A4086 ar gyfer cerddwyr yn ogystal â chysylltiad gwell â'r Lôn Glai gyfagos, sy'n arwain at Ffordd Bethel, y B4366.

NEWIDIADAU SY'N OFYNNOL I ORCHYMYN FFYRDD YMYL 2018

Byddai angen diwygio'r GFfY i gau Llwybr Troed Llanrug drwy Feithrinfeydd Seiont, ar draws Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd yr A487 sydd wedi ei hadeiladu ac yna drwy Dyddyn Bistle.

Oherwydd newidiadau alinio canlyniadol i Briffyrdd Newydd 7/A a 7/B mae'r cyfeirnodau hynny wedi eu dileu a rhoddwyd fersiwn newydd wedi ei chydgrynhoi gyda'r cyfeirnod 7/C yn eu lle.

CYMHARU'R AMRYWIAD ARFAETHEDIG Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWYD

Ar ôl ymgynghori â Chyngor Sir Gwynedd a'i Uwch Swyddog Hawliau Tramwy (Euryn Williams) a thirfeddianwyr cyfagos, ystyrir bod y cynnig yn fwy diogel ac yn fwy dymunol o ran ei fod yn dileu hawl tramwy cyhoeddus annymunol, a allai fod yn anniogel, drwy fusnes annibynnol prysur. Mae hefyd yn creu mynedfa/allanfa fwy diogel i'r A4086.

Fel y nodwyd, trafodwyd hyn â'r Awdurdod Lleol a, phan fo hynny'n briodol, â thirfeddianwyr, â phartïon eraill a chanddynt fuddiant ac/neu â buddiolwyr, ac ym mhob achos cafodd gefnogaeth ac adborth cadarnhaol, gan gael ei ystyried gan bob parti yr ymgynghorwyd ag ef i fod nid yn unig yn ddewis amgen rhesymol i ddyluniad y Cynllun a Gyhoeddwyd ond yn un angenrheidiol.